UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Swyddog Maes y De-orllewin (Rhan-amser 0.8)

**DISGRIFIAD SWYDD**

## 1. Prif bwrpas y swydd

Darparu gwasanaeth i aelodau UCAC yn y De-orllewin.

## 2. Atebolrwydd

Bydd y Swyddog Maes:

(i) yn atebol i'r Ysgrifennydd Cyffredinol ac i'r Cyngor Cenedlaethol drwy'r Ysgrifennydd Cyffredinol
(ii) yn atebol i'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyflogaeth wrth ymdrin ag achosion cyfreithiol
(ii) yn cydweithio â'r Cyngor Cenedlaethol, y Tîm Llywyddol, Swyddogion a Staff UCAC, aelodau Adrannau, Pwyllgorau ac aelodau UCAC

## 2. Prif Ddyletswyddau'r Swydd

Bydd y Swyddog Maes yn:

(i) cynorthwyo a chynghori aelodau sydd angen arweiniad
(ii) sicrhau cynrychiolaeth briodol i aelodau mewn achosion, gwrandawiadau ac apeliadau
(iii) gweithredu fel pwynt cyswllt i Ysgrifenyddion Sir y rhanbarth
(iv) sicrhau y cynhelir cyfarfod o bob Pwyllgor Sir o fewn y rhanbarth yn nhymor yr hydref a thymor yr haf a Chynhadledd Sir ym mis Ionawr
(v) cymryd cyfrifoldeb am Ysgrifenyddiaeth un o adrannau'r Undeb gan ymateb i/paratoi papurau trafod a dogfennau perthnasol
(vi) cyfrannu at y broses o gynnig mewnbwn i'r Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru
(vii) ymweld ag ysgolion, colegau a phrifysgolion yn ôl y galw i gyfarfod aelodau a darpar aelodau
(viii) cynrychioli'r Undeb mewn dirprwyaethau, gan gynnwys dirprwyaethau gyda Llywodraeth Cymru
(ix) cynnal hyfforddiant yn ôl yr angen, i ddarpar-aelodau, Cynrychiolwyr Ysgol ac Ysgrifenyddion Sir
(x) rhoi mewnbwn i ddatganiadau sy'n mynegi barn a safbwynt yr Undeb yn ôl arbenigedd a galw
(xi) ymateb i ymgynghoriadau, papurau trafod a dogfennau perthnasol ar lefel leol/awdurdod/rhanbarthol.
(xii) cyfrannu yn achlysurol at gyhoeddiadau'r Undeb gan gynnwys Yr Athro a Thaflenni Gwybodaeth UCAC

(xiii) yn cydweithio â'r Cyngor Cenedlaethol, y Tîm Llywyddol, Swyddogion a Staff UCAC, aelodau Adrannau, Pwyllgorau ac aelodau UCAC
(xiv) mynychu cyfarfodydd yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyflogaeth, y Cyngor Cenedlaethol a chyfarfodydd eraill a drefnir gan yr Undeb, gan gynnwys y Gynhadledd Flynyddol
(xv) mynychu cyfarfodydd a chynadleddau amrywiol yn ymwneud ag addysg, yn ôl y galw
(xvi) cadw cofnodion, yn ôl y galw
(xvii) rhannu cyfrifoldebau ar stondin UCAC yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol a digwyddiadau eraill, yn ôl y galw
(xviii) gwneud gwaith cyflenwi cyffredinol yn y Brif Swyddfa yn ystod cyfnod o absenoldeb cydweithwyr yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Cyffredinol
(xix) cyflawni unrhyw orchwyl rhesymol arall a osodir gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol, gan gynnwys ymateb yn gyfrifol yn absenoldeb yr Ysgrifennydd Cyffredinol

**Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn cadw hawl i amrywio teitl a dyletswyddau'r swydd fel sy'n briodol yn ôl anghenion UCAC mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Maes.**

---